

## BRANGWYN, Syr FRANK FRANCOIS GUILLAUME (1867 - 1956), arlunydd

**Enw:** Frank Francois Guillaume Brangwyn  
**Dyddiad geni:** 1867  
**Dyddiad marw:** 1956  
**Priod:** Lucy Brangwyn (née Ray)  
**Rhiant:** Eleanor Brangwyn (née Griffiths)  
**Rhiant:** William Curtis Brangwyn  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** arlunydd  
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaerniaeth  
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd yn Bruges, Gwlad Belg, 12 Mai 1867, yn drydydd mab William Curtis Brangwyn (a fu farw 1907 yng Nghaerdydd) ac Eleanor (ganwyd Griffiths) ei wraig a hanai o Aberhonddu. Pensaer eglwysig oedd y tad a chanddo weithdy dodrefn eglwysig yn Bruges ond dychwelodd y teulu i Lundain yn 1875. Ychydig o addysg ffurfiol a gafodd y mab. Bu'n dysgu dylunio yn Amgueddfa De Kensington ac yn gweithio yng ngweithdy William Morris yng nghanol Llundain, 1882-84, yna bu'n arlunydd crwydrol yn Lloegr cyn dechrau teithio ar y cyfandir, y Dwyrain Canol a De Affrica. Yn 1896 priododd nyrs, Lucy Ray (bu farw 1924), ac ymsefydlu yn Hammersmith, Llundain ond ni bu iddynt blant. Bu farw yn Ditchling, Sussex, 11 Mehefin 1956.

Arbenigodd mewn addurno adeiladau mawr megis y Gyfnewidfa Frenhinol yn Llundain a'r Capitol yn Nhalaiith Missouri, T.U.A., â murlenni anferth, a chynllunio carpedi a gwaith tapestri. Comisiynwyd ef gan Arglwydd Iveagh yn 1924 i beintio murlenni yn gofeb rhyfel i Dŷ'r Arglwyddi. Wedi arbrofi gyda golygfeydd o faes y gad cafodd y syniad o ddarlunio cyfoeth yr Ymerodraeth Brydeinig y syrthiodd y bechgyn er ei mwyn, ond pan oedd y gwaith ar ei hanner gwrthododd yr Arglwyddi ei dderbyn ac yn awr y mae'r lluniau mawr lliwgar yn addurno canolfan ddinesig Abertawe lle y cynlluniwyd Neuadd Brangwyn i'w derbyn. Ceir casgliad mawr o'i ddyluniadau a'i gartwnau paratoadol i'r gwaith hwn yn Oriol Glynn Vivian, Abertawe, lluniau yn ninasoedd Ewrob ac Awstralia, a chasgliad mawr o'i waith yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Yr oedd yn awdur *Belgium* (1916) a *The way of the cross* (1935). Derbyniodd lawer o anrhydeddau yma ac ar y cyfandir a'i urddo'n farchog yn 1941.

### Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527â€“1911* (1912) 13

William de Belleruche, *Brangwyn talks* (Llundain 1946)

William de Belleruche, *Brangwyn's pilgrimage* (Llundain 1948)

V. Galloway, *The oils and murals of Sir Frank Brangwyn R.A. 1867-1956* (1962)

*Trivium*, 8, 1973, 121-6 am ail ystyriaeth o'r paneli

### Darllen Pellach

ODNB: *Brangwyn, Sir Frank William (1867-1956)*

Erthygl Wicipedia: *Frank Brangwyn*

### Delweddau

National Portrait Gallery: *Sir Frank Brangwyn (1867-1956), Painter*

### Gweithiau

Art UK: *Frank Brangwyn 1867–1956*

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 54420453

Wikidata: Q560115

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Arddull APA



Jones, E. D., (1997). BRANGWYN, Syr FRANK FRANCOIS GUILLAUME (1867 - 1956), arlunydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-BRAN-GUI-1867>



Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION

